

Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru (2017)

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams, Swyddog Polisi

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn:

rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylech anfon eich ymateb erbyn **30 Medi 2016** at:

Nathan Huish
Yr Is-adran Safonau a Datblygiad Proffesiynol Ymarferwyr
Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno y dylai lefel y ffioedd gael ei phennu yn ôl categorïau ymarferwyr, hynny yw athrawon ysgol, athrawon (darlithwyr) AB, gweithwyr ieuencid, gweithwyr cymorth ieuencid, ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith, gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach/mewn ysgolion?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn ei fod yn rhesymol i bennu ffioedd yn ôl categorïau ymarferwyr gan fod gwahaniaethau sylweddol o ran cyflog rhwng y categorïau.

Er nad yw'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn yn benodol ar y mater, cymrwn y cyfle i ail-ddatgan ein pryder ynghylch ehangu aelodaeth Cyngor y Gweithlu Addysg i gynnwys gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymorth ieuencid.

Nid yw gweithwyr ieuencid yn rhan o'r gweithlu addysg fel y'i deallir yn gyffredinol. Hynny yw, nid ydynt fel arfer yn gweithio mewn lleoliad/sefydliad addysg, nac yn cael eu cyflogi gan leoliad/sefydliad o'r fath, ac nid addysgu ffurfiol yw eu prif swyddogaeth.

Teimla UCAC y byddai cynnwys y grŵp hwn o weithwyr fel aelodau o Gyngor y Gweithlu Addysg yn ehangu aelodaeth y corff gam yn rhy bell, ac yn ei gwneud hi'n anoddach i gadw ffocws priodol ar flaenoriaethau'r gweithlu addysg.

Yn ogystal, ni theimlwn fod Cyngor y Gweithlu Addysg wedi cael cyfle i wneud gwaith digonol hyd yma o ran creu safonau proffesiynol, strwythur gyrfa a phennu cymwysterau ar gyfer staff cymorth dysgu (ysgolion a cholegau addysg bellach). Teimlwn mai gwell fyddai canolbwyntio ar y gwaith pwysig hwn cyn ymestyn y cwmpas i gynnwys gweithlu arall sy'n gymhleth ac amrywiol iawn ei natur.

Mi allai, felly, fod yn niweidiol i'r Cyngor ei hun, ei hygrededd ac 'integriti' ei weledigaeth.

Cwestiwn 2 – Ar hyn o bryd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn ystyried diwygio'r *Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon (STPCD)*, sef dileu'r cyfeiriad a wneir i'r lwfans presennol ar gyfer athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, er mwyn i'r lwfans gael ei ailddosbarthu ar draws y gweithlu ehangach, gan leihau'r ffi ar gyfer pawb sy'n cofrestru o 2017 ymlaen, fel yr awgrymir o dan fodel 1.

Os **nad oes modd** diwygio'r *STPCD*, a ydych yn cytuno bod model 2 yn fodel teg ac addas, er mwyn codi'r arian y bydd ei angen ar Gyngor y Gweithlu Addysg?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	✓	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	---	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae UCAC o'r farn mai'r cyflogwr ddylai dalu ffioedd cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg yn llawn.

Ymhellach, nid yw'r ddogfen ymgynghorol yn ei gwneud yn glir pam ddylai Model 2 fod yn wahanol i Fodel 1. Mae paragraff 8.3 (ii) yn dweud 'heb y diwygiad angenrheidiol i'r Ddogfen, ni châi digon o gymhorthdal ei gynhyrchu o ganlyniad i'r niferoedd uwch na'r disgwyl o GCD... i allu cadw'r ffi ar gyfer y gweithlu ehangach ar £15'. Mae niferoedd y GCD yr un fath p'un ai yw'r arian yn dod drwy'r Ddogfen i Awdurdodau Lleol ac yn cael ei ailgyfeirio drwy ffioedd athrawon, neu os yw'r arian yn dod fel cyllid bloc yn syth i Lywodraeth Cymru ac oddi yno i'r Cyngor.

Os mai ehangu cwmpas y Cyngor i gynnwys gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymorth ieuencid yw'r rheswm dros godi ffi uwch ar weithwyr cymorth dysgu (h.y. taenu cymhorthdal athrawon ysgol hyd yn oed yn deneuach), mae hynny'n reswm arall eto dros beidio ag ymestyn y cwmpas.

Cwestiwn 3a - Os na fydd yr arian ar gyfer y cymhorthdal ar gael, bydd angen defnyddio model 3. A ydych yn cytuno â'r cynnig i seilio'r ffioedd ar raddfa 3 y tabl, fel yr amlinellir ym mharagraffau 9.1 - 9.6 yr ymgynghoriad?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Cwestiwn 3b – Os byddwch yn anghytuno â defnyddio graddfa 3 model 3, nodwch pa raddfa a fyddai'n well i'w defnyddio drwy roi tic ym mlwch perthnasol y tabl isod:

Opsiw ffioedd	Athrawon ysgol, addysg bellach, gweithwyr ieuencid ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith	Gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion ac addysg bellach a gweithwyr cymorth ieuencid
1	£68	£15
2	£65	£20
3	£61	£25
4	£58	£30
5	£54	£35
6	£51	£40
7	£46	£46

Sylwadau ategol



Cwestiwn 4 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Noda'r ddogfen ymgynghorol ym mharagraff 5.3 fod y Cyngor 'yn ystyried ffyrdd o symleiddio ei wasanaethau a lleihau ei gostau gweithredu yn barhaus.'

Mae gennym bryder penodol ynghylch un o weithdrefnau'r Cyngor a allai arwain at wastraff adnoddau difrifol. Mae'r pryder ynghylch geiriad Adran 8, cwestiwn 3 y datganiad ar y ffurflen gofrestru. Mae'n gofyn i rywun sy'n ymgeisio i gofrestru â'r Cyngor i ddatgan *'unrhyw gamau gweithredu neu ymchwiliad a gynhaliwyd drwy gydol hanes eich cyflogaeth ac nid cyflogaeth yn ymwneud â gwaith yn y sector Addysg yn unig'*.

Er ein bod yn eithriadol o ymwybodol o'r angen i sicrhau prosesau diogelwch, mae gennym wrthwynebiad mewn egwyddor i'r cais hwn am wybodaeth – sy'n cynnwys achosion ble canfuwyd nad oedd achos i'w ateb, neu ble na arweiniodd at gamau disgyblu.

Ond o safbwynt yr ymgynghoriad hwn, sy'n gofyn ynghylch codi ffioedd ar y gweithlu addysg – yng nghyd-destun gwerth am arian, mae UCAC yn gadarn iawn o'r farn na ddylai Cyngor y Gweithlu Addysg fod yn treulio amser ac adnoddau'n ymchwilio i ffug-gyhuddiadau, a materion lefel isel mewn cannoedd neu filoedd o achosion.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

